

Y Teulu

Darlleniad 1: Effesiaid 3: 14-21

Darlleniad 2: Luc 2: 41-52

Dduw tragwyddol, rhoddwr ein bywyd ni, addolwn di. Ti yw lluniwr a chynhaliwr popeth sy'n bod, a thydi sy'n rhoi ystyr a phwrpas i'n byw. Ohonot ti y mae pob cymdeithas a chariad sy'n sylfaen i'n bywyd yn tarddu. Tydi ydyw'r Tad y mae pob teulu yn y nefoedd ac ar y ddaear yn cymryd ei enw oddi wrtho. Ynot ti y mae dy bobl yn profi tynerwch a gofal cyffelyb i gysur mam i'w phlentyn.

Yn dy Fab, Iesu, a wybu'n llawn beth oedd bywyd teulu ar aelwyd yn Nasareth, y mae i ninnau Frawd sy'n cyfrif pawb a gred ynddo'n frodyr a chwiorydd. Ac yng Nghrist, achubwr a gobaith y ddynoliaeth, y gwneir ni'n un, yn gyd-ddinasyddion â'r saint, ac yn deulu Duw. Diolchwn i ti am y drefn sydd wedi'n gosod i fyw gyda'n gilydd; am gwmni ar daith bywyd; am ein geni i deuluoedd, ac am y rhai a ddaeth â ni i'r byd; am rieni a pherthnasau i'n magu a'n meithrin; am gyfraniad pob plentyn ar aelwyd; am fywyd cartref, ac am ddysgu cyd-fyw; am brofi cariad a gofal, ac am ddisgyblaeth rasol; am gyfranogi yn llawenydd teulu, a rhannu cyfrifoldeb o'i fewn; am bob ymwybod o dderbyn a rhoddi, cymryd a chyfrannu.

Mewn edifeirwch, ceisiwn dy faddeuant i'r gymdeithas yr ydym yn rhan ohoni, am bob dim sy'n dibrisio a bychanu bywyd teulu, yn chwalu bywyd aelwyd, yn oeri cariad at rywun arall, yn llacio'n gofal a'n cyfrifoldeb tuag at ein gilydd, yn peri nad yw plant yn anrhydeddu eu rhieni, ac yn peri i rieni fod yn ddifater ynghylch eu plant. Maddau lle mae gorthrwm o fewn teulu, lle mae'r naill aelod yn defnyddio'r llall i'w ddiben ei hun, lle nad oes i bob aelod o'r teulu gyfle i dyfu a datblygu a chyfrannu i eraill mewn rhyddid a chariad. Maddau lle mae teulu'n byw iddo'i hun, yn cau eraill allan, yn crafangu popeth yn hunanol, yn hytrach na bod ei

ddrysau'n agored; yn troi'r berthynas deuluol yn eilun, pan fwriadwyd iddi fod yn fendith.

Bendithia deuluoedd sy'n ymwybodol o orwelion llydan, pob teulu clòs, cynnes sy'n arddel y sawl sy'n berthynas o bell ac yn ysgwyddo'u cyfrifoldeb tuag at estron. Bendithia bob ymwybod o gyfrifoldeb at genedl, sy'n deulu o deuluoedd, a bendithia'r awydd i feithrin ei diwylliant a'i hetifeddiaeth, ac i greu cymdeithas iach rhwng ei phobl. Bendithia ni â chariad at y ddynoliaeth gyfan, a dyro inni ei gweld yn deulu o genhedloedd. Maddau bob ymraniad ar sail hil a lliw, iaith a dosbarth, sy'n cau allan yn hytrach na chynnwys pawb. Dysg ni i weld y cyfoeth a roddwyd i'r teulu dynol trwy amrywiaeth pobloedd, a thrwy gyfraniad pob un ohonynt.

Uwchlaw popeth, diolchwn i ti am gymdeithas Eglwys Iesu Grist, ac am ein bod ynddi yn profi beth yw bod yn 'ddynoliaeth newydd', yn 'deulu Duw'. Diolchwn am berthynas â'n gilydd ynddi, am gariad ac undod ac ymwybod o gyfoeth tystiolaeth pawb, am gael ynddi ernes o fywyd dy deyrnas dragwyddol, a blaenbrawf o'th fwriad ar gyfer y ddynoliaeth yn dy Fab. Gweddiwn am ddyfod holl deulu dyn yn deulu Duw trwy'r Ysbryd Glân. Gwranddo ni yn ein deisyfiadau a'n mawrhad yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

John Rice Rowlands